***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2698 (Cy.230)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *10 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *16 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 16 Hydref 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 1999

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 1999(**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn lle paragraffau (c), (e) a (g) o reoliad 2 (Dehongli), rhodder y paragraffau canlynol—

"(c) "Commission Regulation" means Commission Regulation (EC) No 885/2006(**4**) laying down detailed rules for the application of the Council Regulation in relation to the accreditation of paying agencies";

"(e) "the Council Regulation" means Council Regulation (EC) No 1290/2005(**5**) on the financing of the common agricultural policy, as last amended by Council Regulation (EC) No 320/2006(**6**);";

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2005 (O.S. 2005/2766) ("y Gorchymyn"). Mae Erthygl 4 ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau, o ran Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, sy'n rhychwantu daliadau sy'n cynnwys tir a leolir o fewn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 1999/2223.

(**4**) OJ Rhif L171, 23.6.2006, t. 90.

(**5**) OJ Rhif L209, 11.8.2005, t.1.

"(g) "paying agency" has the meaning it has in Article 6 of the Council Regulation;".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D. Elis-Thomas*

10 Hydref 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) OJ Rhif L 58, 28.2.2006, t.42.

(**7**) 1998 p.38.

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 1999 (“Rheoliadau 1999).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac o ran daliadau amaethyddol trawsffiniol y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) yn gyfrifol amdanynt fel asiantaeth dalu.

Mae Rheoliadau 1999 yn galluogi'r Cynulliad, os cafodd ei achredu'n briodol at y diben, i weithredu fel asiantaeth dalu yn y Deyrnas Unedig o ran cyllido'r polisi amaethyddol cyffredin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r cyfeiriadau a wneir at ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn Rheoliadau 1999.